Menter Ieuenctid Cristnogol (M.I.C.)

Yn gwasanaethu eglwysi Sir Gaerfyrddin.

Llythyr Newyddion a Gweddi (Rhifyn 31) www.micsirgar.org

Diwedd Cyfnod

"Dw i wedi cyrraedd pen y daith….Mae'r amser i mi adael …..wedi dod. Dw i wedi rhedeg y ras i'r pen." (2 Timotheus 4:6-7). Dyna oedd rhai o eiriau olaf Paul wrth iddo drosglwyddo y gwaith o gyflwyno'r efengyl i'r gŵr ifanc, Timotheus. Ar ôl arwain gwaith M.I.C. am dros ddeg mlynedd a'r gwaith yng ngogledd y sir am dair mlynedd cyn hynny, dw i'n medru dweud yr un peth, er mewn cyd destun hollol wahanol.

Rwyf wedi cael pleser o'r mwyaf yn y gwaith, ac mae fy nyled a'm diolchgarwch yn fawr i eglwysi ar draws y sir am y gefnogaeth arbennig dw i wedi dderbyn. Wrth edrych nôl dros y blynyddoedd mae nifer o uchafbwyntiau yn aros yn y cof. Pwy all anghofio gwefr y Cwis Beiblaidd gyda'r bysyrs electronig, a'r cyffro wrth i gannoedd ymgynnull ar gyfer y mabolgampau blynyddol?

Plant Tabernacl Llwynhendy yn derbyn y tlws Cwis Beiblaidd Cynradd wrth Rosemary Morgan yn 2012

Testun llawenydd hefyd yw bod yr oedfa, "Joio Gyda Iesu" yn mynd o nerth i nerth ac wedi ymsefydlu yng nghalendr blynyddol eglwysi'r sir. Ond efallai yn bennaf oll, dw i'n diolch i Dduw am ateb gweddiau i weld sefydlu 6 clwb plant gyda gobaith i weld clybiau newydd yn cychwyn yn Llanelli yn y flwyddyn newydd.

Mae wedi bod yn fraint aruthrol i gael rhannu'r newyddion da am ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist ymysg plant ac ieuenctid ein sir, a dw i'n diolch i bwyllgor llywio M.I.C., Henaduriaeth Myrddin ac enwadau'r Bedyddwyr, Annibynwyr a'r Presbyteriaid am y gefnogaeth gadarn rwyf wedi derbyn. Ond mae'r diolch pennaf i Dduw am ei gynhaliaeth a'i arweiniad ac am agor drysau i mi gael son am ei Fab.wrth genedlaethau o blant ac ieuenctid.

Tecwyn Y Tedi a Rosfa'r Consuriwr yn lansiad Clwb Plant Llangennech yn 2016.

Ond y newyddion da yw, er bod yr amser wedi dod i fi adael y gwaith, mae yna berson ifanc, brwdfrydig wedi ei benodi i gadw'r fflam yn fyw. Boed bendith helaeth yr Arglwydd ar Jack Newbould wrth iddo gychwyn yn y swydd ym mis Ionawr.

Tymor Y Nadolig 2019

Yn y rhifyn hwn:

Oedfa Joio Gyda Iesu	2
Taith Stori'r Mis	3
Dod i Adnabod Jack Newbould	3
Oedfa Tanio'r Fflam	3
Colli Golwg Ar Y Prif Neges	4
Jôc: "Cywirdeb Gwleidyddol"	4
Y Gornel Weddi a Hysbysebion	4

Timoedd ras gyfnewid merched bl 3 - 6 yn derbyn eu gwobrau gan Y Parch Tom Defis nôl yn 2012.

Beiblau I Ddisgyblion Ysgol Y Dderwen

Disgyblion blynyddoedd 4 a 5 o Ysgol Y Dderwen, Caerfyrddin yn derbyn rhodd o Feiblau wrth Glwb Sbarc Llangynnwr.

Ar ddechrau'r tymor derbyniodd disgyblion blynyddoedd 4 a 5 o Ysgol Y Dderwen gopi'r un o "Feibl Lliw Stori Duw." Mae'r Beibl hwn yn glasur o lyfr mewn clawr caled sy'n cynnwys dros 300 o storïau mewn lliw. Cyflwynwyd y Beiblau ar ran clwb Sbarc, Llangynnwr gan Catrin Hampton (arweinydd y clwb); Y Parchg. Beti Wyn James (cadeirydd pwyllgor oedfa Gŵyl Ddewi); a Corey Hampton (Gweinidog Cynorthwyol Y Babell - Zion Newydd). Ariannwyd y Beiblau gan rodd a dderbyniwyd yn dilyn casgliad oedfa Gŵyl Ddewi eglwysi Cymraeg Caerfyrddin 2019. Mae clwb Sbarc yn cwrdd ar nos Iau yng nghapel Y Babell - Zion Newydd, Pensarn o 5:45 - 6:45 ac mae yna groeso cynnes i unrhyw blentyn blynyddoedd 3 - 6.

Joio Gyda Iesu 2019

Geraint Morse (yn y cefn ar y dde),y siaradwr gwadd, yng nghwmni plant a phobl ifanc o'r gynulleidfa fu'n ei gynorthwyo gyda'r neges.

Isaias Grandis yn cael ei holi gan Catrin Hampton am ei gefndir yn Y Wladfa ac am ei ffydd.

Cynhaliwyd oedfa flynyddol M.I.C., sef "Joio Gyda Iesu" yng Nghapel Seion, Drefach ar brynhawn Sul Tachwedd 3ydd. Daeth tyrfa niferus ynghyd, ac roedd yn bleser i weld y capel bron a bod yn llawn.

Arweiniwyd yr addoliad yn fywiog a hwylus gyda Marie Seymour yn cyfeilio, Aled Mainwaring yn chwarae'r gitâr a Wayne Griffiths ar y drymiau. Cymerwyd rhan gan aelodau ifanc o Ysgolion Sul y cylch a bu côr Ysgol Drefach yn canu dwy gân yn hyfryd a swynol. Fel arwydd o werthfawrogiad am gyfraniad yr ysgol, cyflwynodd Tom Defis (cadeirydd pwyllgor llywio M.I.C.), gopi o'r llyfr canu Cristnogol, "Canu Clod 1", i Manon Jones (prifathrawes).

Un o'r gwestai gwadd eleni oedd Isaias Grandis sy'n dod yn wreiddiol o Batagonia ond sydd bellach yn weinidog yn ardal Llanelli. Fe'i holwyd am ei brofiadau a'i ffydd gan Catrin Hampton a diddorol oedd clywed am ei gefndir yn Y Wladfa a'r ffordd cafodd ei arwain i fod yn weinidog yr efengyl yng Nghymru.

Eitem boblogaidd o flwyddyn i flwyddyn yw'r sgets. Eleni perfformiwyd sgets, "Cymerwch Y Moddion!" gan aelodau o Gapel Seion. Fel arfer roedd y sgets yn un ddigri gyda neges ddifrif.

Yn dilyn y sgets daeth yr ail westai i'r blaen, sef Geraint Morse, sydd bellach yn weinidog yn ardaloedd Croesgoch a Phencaer. Cyflwynodd neges syml ond effeithiol, gan ddefnyddio 7 belt "karate", pob un a lliw gwahanol, a gan roi symbol ysbrydol i bob lliw, eglurodd gynnwys yr efengyl.

Diweddwyd yr oedfa arbennig hon wrth i Gwyn Elfyn Jones (gweinidog Capel Seion) gyhoeddi'r fendith. Am ragor o luniau ewch i wefan M.I.C. sef www.micsirgar.org

Oedfa 2020: Dalier sylw bod oedfa M.I.C. y flwyddyn nesaf yn cael ei chynnal yng Nghapel Peniel ar Dachwedd 1af am 2:30 y.p., a'r siaradwr gwadd fydd Owain Edwards (Coleg Y Bala). Gwneir apêl i eglwysi'r ardaloedd cyfagos i beidio â chynnal oedfa ar y prynhawn Sul hwn ond i ymuno yn dyrfa fawr i "joio gyda Iesu."

Rhan o'r gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd i'r oedfa, "Joio Gyda Iesu."

Rhan o'r criw o Gapel Seion fu'n cyflwyno'r sgets.

Tom Defis yn cyflwyno rhodd i Manon Jones Prifathrawes Ysgol Gynradd Drefach i ddiolch am gyfraniad y côr i'r oedfa.

Tom Defis yn dymuno'n dda i Nigel Davies ar ei ymddeoliad fel Swyddog Plant / Ieuenctid i M.I.C. ac Henaduriaeth Myrddin.

Taith Stori'r Mis

Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae'r Suliau yn ystod Hydref a Thachwedd yn cael eu neilltuo gennyf i ymweld ag eglwysi ac annerch mewn oedfaon teuluol. Unwaith eto eleni mae'r dyddiadur wedi bod yn llawn a charwn ddiolch yn fawr i bawb wnaeth estyn gwahoddiad i mi ymweld. Mae bob amser yn fraint i gael cwrdd gyda phlant, ieuenctid a'u teuluoedd ac i rannu ganddynt y newyddion da am Iesu Grist.

Roedd y neges eleni yn seiliedig ar yr hanes am Iesu yn golchi traed y disgyblion. Trwy gyfrwng cyflwyniad gweledol ac ychydig hud y nod oedd dod â'r neges yn fyw ym mhrofiad y plant a'r gynulleidfa. Isod mae lluniau o rai o'r plant a'r bobl ifanc hynny wnaeth gymryd rhan a chynorthwyo yn ystod y daith. Am ragor o luniau o bob capel ble bûm yn ymweld ewch i www.micsirgar.org

Beti Wyn a phlant o Cana, Gibeon a Bancyfelin.

Plant o Gapel Seion, Drefach.



Un o blant Carmel, Pontlliw yn gwylio gyda llygaid barcud.

Helpwyr ifanc o Gapel Newydd, Llandeilo

Plant o Gapel Bryn Iwan

Helpwyr ifanc o Moriah, Brynaman yng nghwmni Mel Morgans.

Dod I Adnabod Jack Newbould

Jack Newbould Swyddog Plant ac Ieuenctid newydd M.I.C. ac Henaduriaeth Myrddin.

Llongyfarchiadau mawr i Jack Newbould ar ei benodiad i fod yn Swyddog Plant / Ieuenctid i M.I.C. a Henaduriaeth Myrddin. Mae'n dod yn wreiddiol o Lanbedr wrth ymyl Harlech. Ar ôl gadael Coleg bu'n gweithio ar flwyddyn gap yng Ngholeg Y Bala cyn cael ei apwyntio yn Is Warden y Coleg. Mae'n brofiadol o weithio gyda phlant ac ieuenctid gan drefnu digwyddiadau, arwain cyrsiau ac ymweld ag ysgolion. Fe'i magwyd ar aelwyd Gristnogol ac mae ei ffydd yn chwarae rhan bwysig yn ei fywyd. Mae'n hoff o bob math o chwaraeon ond yn bennaf oll beicio, criced a nofio. Mae hefyd yn ddylunydd a ffotograffydd talentog.

Mae Jack yn edrych ymlaen at y bennod newydd yn ei fywyd wrth iddo symud i sir Gaerfyrddin gyda gweledigaeth i ddatblygu'r gwaith a chyflwyno rhai syniadau newydd. Y weithgaredd cyntaf bydd yn gyfrifol amdano fydd chwaraeon M.I.C. ar Ionawr 18fed. Fel dywed y proffwyd Eseia: "**Peidiwch hel atgofion am y gorffennol, a dim ond meddwl am beth ddigwyddodd o'r blaen! Edrychwch , dw i'n gwneud rhywbeth newydd! Mae ar fin digwydd!"** (Eseia 43:18-19). Gellir cysylltu gyda Jack ar ***07930588789*** neu jack.newbould@ebcpcw.cymru

Oedfa Tanio'r Fflam

Un o blant Capel Ffynnonbedr yn dangos beth yw ffydd trwy aros o dan cwpanaid o ddŵr a disgwyl aros yn sych!

Oedfa ar gyfer plant ac ieuenctid capeli ardaloedd San Clêr, Bancyfelin, Meidrim a'r cylch yw Tanio'r Fflam. Thema'r oedfa eleni oedd "Gwyrthiau Iesu" a chymerwyd rhan gan blant a phobl ifanc o Ysgolion Sul y capeli cyfagos. Cefais y fraint o annerch y gynulleidfa luosog ar y testun, *"Mae'n amhosib plesio Duw heb ffydd."* (Hebreaid 11:6). Gyda chymorth pwynt pŵer a hud, cyflwynwyd yr hanes am iachau gwas y canwriad Rhufeinig.

Nigel Davies,
Swyddog Plant ac Ieuenctid M.I.C.,
Llain Deg,
Llangynin,
San Clêr,
Caerfyrddin SA33 4JY

Rhif ffôn: (01994)230049
E - bost: **mic@uwclub.net** Gwefan: **www.micsirgar.org**

Colli Golwg Ar Y Prif Neges

Yn Rhagfyr 1903 fe wnaeth y brodyr Orville a Wilbur Wright greu hanes wrth iddynt ar ôl sawl ymgais lwyddo i hedfan. Gan orfoleddu yn yr hyn roeddent wedi cyflawni dyma nhw'n danfon telegram at eu chwaer Katherine gan ddweud, *"Rydym wedi llwyddo i hedfan 120 troedfedd. Byddwn adre erbyn Y Nadolig."* Fe aeth Katherine yn llawn cyffro a'r telegram at olygydd y papur lleol. Cymerodd y golygydd y telegram a'i ddarllen yn gyflym. *"Gwych"*, meddai. *"Bydd y bechgyn adre ar gyfer y Nadolig."* Roedd e wedi colli'r pwynt yn llwyr, sef bod y brodyr wedi creu hanes trwy lwyddo i hedfan am 120 troedfedd.

Onid yw hynny'n berygl i ni hefyd? Mor hawdd yw hi i golli golwg ar holl bwynt y Nadolig? Fe wnawn ni gofio am yr anrhegion, yr addurniadau, y bwyd a phethau eraill sy'n gysylltiedig â'r Ŵyl, ond a wnawn ni gofio holl bwrpas y dathlu? Mae Nadolig heb Grist yn ddathliad gwag. Sylfaen ein ffydd yw bod Duw yn ein caru a'i fod wedi ymweld â ni ym mherson ei Fab ***"er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol."*** (Ioan 3:16). Nadolig llawen i chi gyd.

Y GORNEL WEDDI

"Peidiwch â gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddïwch a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen." (Philipiaid 4:6 beibl.net).

Buaswn yn gwerthfawrogi eich gweddïau am y pwyntiau canlynol:

DIOLCH…..

- am y fendith a gafwyd yn yr oedfa, "Joio Gyda Iesu."
- am y cyfle i rannu'r newyddion da gyda channoedd o bobl o bob oed yn ystod taith "Stori'r Mis."
- am wir ystyr y Nadolig, ac am fod Iesu wedi dod i'n byd er mwyn bod yn Waredwr i ni.
- am ffyddlondeb yr Arglwydd yn y gwaith ar hyd y blynyddoedd.
- i'r Arglwydd am alw Jack Newbould i arwain gwaith M.I.C. i'r dyfodol.

DEISYFWN FENDITH DUW …….

- ar y trefniadau ar gyfer chwaraeon M.I.C. ar Ionawr 18fed.
- ar y penwythnosau i bobl ifanc yng Ngholeg Y Bala yn Ionawr a Chwefror.
- ar yr ymdrech i sefydlu clwb plant Cristnogol yn Llanelli.
- ar waith M.I.C. i'r blynyddoedd sy'n dod.

PRIF NEGES YR ŴYL

"Roedd e'n rhannu'r un natur â Duw...ond dewisodd roi ei hun yn llwyr i wasanaethu eraill...a dod aton ni fel person dynol."
Philipiaid 2:6-7



PENWYTHNOS SOULED OUT
Ionawr 31ain - Chwefror 2ail
15 – 19 oed
PENWYTHNOS CWRS IEUENCTID
Chwefror 21ain - 23ain
Blynyddoedd 7 - 11
Bws am ddim i'r ddau benwythnos.

CHWARAEON M.I.C.

Bydd cystadlaethau chwaraeon dan do ar gyfer yr eglwysi hynny sy'n perthyn i M.I.C. yn cael eu cynnal ar ddydd **Sadwrn Ionawr 18fed** yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin.

Pêl Droed / Pêl Rwyd.
Cynradd ac Uwchradd.
Bydd pob cystadleuaeth yn 5 bob ochr ar wahan i'r gystadleuaeth bêl droed uwchradd a fydd yn 4 bob ochr.

Diwrnod llawn hwyl a chyffro a chyfle i gyfarfod gyda Jack Newbould, Swyddog Plant ac Ieuenctid newydd M.I.C.
07930588789
jack.newbould@ebcpcw.cymru

Cywirdeb Gwleidyddol!



"Os dw i'n cyfeirio at Dduw fel "***fe"***, dw i'n troseddu'r gwragedd. Os dw i'n cyfeirio at Dduw fel "***hi"***, dw i'n troseddu'r dynion. Dw i wedi dod i'r casgliad mai'r peth gorau i wneud yn fy mhroffesiwn i yw peidio son am Dduw o gwbl!!"

Dyma Lythyr Newyddion a Gweddi rhif 31 a dyma'r Llythyr diwethaf byddaf yn ei anfon atoch. Diolch o galon am eich diddordeb, eich cefnogaeth a'ch gweddiau ar hyd y blynyddoedd. Dymuniadau gorau a phob bendith ar y gwaith i'r dyfodol.